# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)

## Dadl Cynhyrchu: *Gravity* fel ffilm Brydeinig

## Gweithgaredd Cychwynnol

- Yn unigol, ysgrifennwch ddiffiniad bras o beth rydych chi'n credu yw ffilm Brydeinig.
- Cymharwch eich diffiniad chi â diffiniad y person sy'n eistedd wrth eich hochr. A oes unrhyw debygrwydd/gwahaniaethau?

## Tasg 1

Yng nghyd-destun cynhyrchu ffilmiau yn fwyfwy byd-eang, nid yw bob amser yn briodol siarad yn nhermau, er enghraifft, ffilm Brydeinig, neu ffilm o Ffrainc neu o México.

- A yw ffilmiau Bond yn ffilmiau Prydeinig er eu bod nhw'n cael eu hariannu gan stiwdios UDA?
- A yw *Pan's Labyrinth* yn ffilm o Sbaen neu o México – mae wedi'i lleoli yn Sbaen a chafodd ei hariannu gan Sbaen, ond roedd ganddi gyfarwyddwr o México?
- Edrychwch i weld beth mae IMDb yn ei ddweud. Pa gasgliadau rydych chi'n dod iddyn nhw?

Efallai nad yw hyn yn bwysig i gynulleidfaoedd. Maen nhw'n dueddol o feddwl am ffilmiau mewn termau diwylliannol. Caiff ffilmiau *Harry Potter* a *The Full Monty*, er enghraifft, eu hystyried yn Brydeinig o ran eu diwylliant, er eu bod nhw wedi cael eu hariannu gan stiwdios UDA. Caiff *12 Years a Slave* ei hystyried yn ffilm Americanaidd, er bod y cyfarwyddwr o Brydain. I gynhyrchwyr, fodd bynnag, mae pennu ffilm yn un Brydeinig neu Americanaidd, er enghraifft, yn effeithio ar broses ariannu'r ffilm.

Mae Sefydliad Ffilm Prydain (*BFI: British Film Institute*) yn cynnal prawf diwylliannol sy'n rhoi pwyntiau ar sail nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- a yw ffilm yn Brydeinig o ran diwylliant (wedi'i lleoli ym Mhrydain, gyda Phrydeinwyr yn chwarae'r prif rannau)
- a oedd agweddau allweddol ar ei phroses cynhyrchu wedi cael eu cwblhau gan gwmnïau o Brydain
- a oedd personél allweddol yn Brydeinig (cyfarwyddwr, awdur sgript, cynhyrchydd, *etc*).

Os yw ffilm yn gymwys fel ffilm Brydeinig, mae'n denu consesiynau treth sy'n gwneud y ffilm yn rhatach ei chynhyrchu. Er mwyn i ffilm fod yn gymwys fel ffilm Brydeinig, rhaid iddi gyrraedd o leiaf 18 pwynt o 35 yn y prawf diwylliannol.

Edrychwch yn ofalus ar feini prawf *BFI* a cheisiwch benderfynu a ydych chi'n credu bod *Gravity* yn gymwys i fod yn ffilm Brydeinig. Bydd angen i chi ymchwilio i mewn i'r broses cynhyrchu a'r cyd-destun diwylliannol er mwyn rhoi'r sgôr berthnasol i'r ffilm.

http://www.bfi.org.uk/film-industry/british-certification-tax-relief/cultural-test-video-games/summary-points-cultural-test-film

Os ydych chi'n credu bod y ffilm yn sgorio 18 pwynt ar y prawf diwylliannol, mae'n gymwys i fod yn ffilm Brydeinig.

# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)
## Dadl Cynhyrchu: *Gravity* fel ffilm Brydeinig

## Tasg 2 (Adnodd Digidol 7a)

**Roedd *Gravity* yn gymwys fel ffilm Brydeinig. Caiff ei chredydu fel ffilm wedi'i chyd-gynhyrchu gan y DU/UDA (UDA dros y DU). Nodwch pam rydych chi'n credu y byddai cynulleidfaoedd, o bosibl, yn ei hystyried yn fwy o ffilm Americanaidd na ffilm Brydeinig?**

## Tasg 3 (Adnodd Digidol 6b)

**Ydych chi'n credu bod cynulleidfaoedd y ffilm yn poeni a yw cynhyrchwyr yn ystyried y ffilm yn un Brydeinig ai peidio? Gallai'r ddwy erthygl gyntaf eich helpu â'r ddadl hon.**

**1. Darllenwch yr erthygl ganlynol:**
**http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-26048992**

**Gwnewch nodiadau ar y prif bwyntiau mae'n eu gwneud am beth sy'n diffinio ffilm Brydeinig.**

**2. Beth yw prif swyddogaeth y darn canlynol am *Gravity*? A yw'n eich argyhoeddi chi fwy ynghylch a oes modd ystyried y ffilm yn ffilm Brydeinig ai peidio?**
**http://news.sky.com/story/1219643/oscars-gravity-showcases-british-film-talent**

**Heyday Films a Framestore**
**Un o'r partneriaid allweddol o'r DU wrth gynhyrchu *Gravity* oedd Heyday Films. Ceisiwch ddod o hyd i bump o ffeithiau allweddol am y cwmni cynhyrchu hwn o'r DU.**

**Yn yr un modd, chwiliwch am wybodaeth am Framestore, cwmni effeithiau gweledol o'r DU a sefydlwyd yn 1986, a weithiodd ar y *VFX* ar gyfer *Gravity*.**